

**GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN**  
**MAES PARCIO CANOLFAN HAMDDEN, LLANELLI**  
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 3) 2015**

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 35(1) a (3) o Ran IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn allan yma fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Parcio 1989 a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Caiff Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) 2014 ("Y Gorchymyn Cydgyfnerthu") drwy hyn ei amrywio a chaiff yr effaith ganlynol:
  - (a) Bydd y diwygiad hwn yn golygu y bydd y manau parcio hyn a nodir a disgrifir yn Rhan I o'r Atodlen yn rhwym wrth ddarpariaethau Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2014 (fel ei diwygiwyd) ac yn ddarostyngedig i'r taliadau penodedig yn Rhan II o'r Atodlen i'r hysbysiad hwn.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar y 18fed o Orffennaf, Dwy Fil Undeg a Chwech, a gellid cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin Maes Parcio Canolfan Hamdden, Llanelli (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 3) 2015

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**  
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** yma  
Ar y 24ain o Fehefin, 2016  
Ger fy mron i,

-----  
  
**Linda Rees-Jones**  
**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**



**RHAN I  
ATODLEN**

**Maes Parcio Canolfan Hamdden, Llanelli  
Yr Oriau Codi Tâl: 8 a.m. – 6 p.m.  
Y Dyddiau Codi Tâl yw Bob Dydd**

<b>Y Lleoliad</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Dosbarth y Cerbydau</b>	<b>Lle yn union y caiff y cerbydau aros</b>	<b>Y Cyfnod Aros Hwyaaf</b>
<p>Maes Parcio Canolfan Hamdden Llanelli</p> <p>15 o lefydd parcio i bobl anabl.</p> <p>119 o lefydd safonol.</p>	<p>Parc y Bobl sy'n ffinio â'r ochr ogleddol. Cil-y-parc sy'n ffinio â'r ochr ddwyreiniol. Heol yr Hen Gastell sy'n ffinio â'r ochr ddeheuol. Canolfan Selwyn Samuel sy'n ffinio â'r ochr orllewinol.</p>	<p>Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tonnall fetrig yn ei gryswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder; Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr.</p>	<p>O fewn lle a ddynodwyd, yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr.</p>	<p>Pob awr Drwy'r dydd.</p>
<p>Maes Parcio Coetsis / Bysiau Canolfan Hamdden Llanelli</p>	<p>Pwll Nofio'r Jiwbili sy'n ffinio â'r ochr ogleddol. Eiddo ym mhen blaen Cil-y-parc sy'n ffinio â'r ochr ddwyreiniol. Y Clwb ym mhen blaen Heol yr Hen Gastell sy'n ffinio â'r ochr ddeheuol. Canolfan Selwyn Samuel sy'n ffinio â'r ochr orllewinol.</p>	<p>Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Adran 1 o Ddeddf Cerbydau Teithwyr 1981. Coets fel y'i diffinnir yn Adran 3 o Reoliadau Cerbydau'r Ffordd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986. Bws fel y'i diffinnir yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002.</p>	<p>O fewn lle a ddynodwyd, yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr.</p>	<p>3 Awr Ni fydd tâl.</p>

**RHAN II**  
**ATODLEN TALIADAU**  
**Maes Parcio Canolfan Hamdden, Llanelli**  
**Bob Dydd: 8.00 a.m. - 6.00 p.m.**

<b>Tâl am y dydd</b>	<b>Mannau Parcio</b> <b>Bob Dydd: 8.00 a.m. - 6.00 p.m.</b>
Parcio am ddim hyd at 3 awr	-
Hyd at 4 awr	£2.00
Drwy'r Dydd	£2.20
Tocyn Tymor 3 Mis	£137.50
Tocyn tymor 6 Mis	£275
Tocyn Tymor 12 Mis	£550

KEY

Traffic Regulation Enforcement Boundary




Car Parking Area (121 Standard Bays, 2 Mother & Toddler Bays & 15 Disabled Bays)



Bus & Coach Parking Area



Area EXCLUDED from Traffic Regulation Order.



FEASIBILITY



LLANELLI LEISURE CENTRE CAR PARK TRO

ENFORCEMENT BOUNDARIES

Drawn By	MEG	Date	14/08/12	Checked		Date	
Project No.	80/0080/358						
NTS							

